## DARN DARLLEN 1




cysylltwch â ni!
01239 652140
llangrannog@urdd.org




**Amdanom ni**
Mae Llangrannog yn un o dri gwersyll Urdd Gobaith Cymru. Mae Gwersyll Llangrannog yn cynnig profiadau gwledig ac awyr agored penigamp i blant a phobl ifanc. Rydym yn croesawu dros 35,000 o blant ac oedolion yn flynyddol ar gyrsiau iaith, antur, addysg a hwyl!

Cafodd y gwersyll ei agor yn 1932 a dyma wersyll cyntaf Urdd Gobaith Cymru. Cafodd y tir ei roi i'r Urdd gan ddyn o'r enw J. M. Howell. Roedd lle i 150 o wersyllwyr yn ystod haf poeth 1932. Ar y cychwyn doedd merched a bechgyn ddim yn y gwersyll gyda'i gilydd. Yn 1938 cafwyd y gwersyll cymysg cyntaf i fechgyn a merched.

Yn yr 1970au daeth llawer o newid a dechreuodd y gwersyll agor trwy gydol y flwyddyn a chyflogi staff llawn amser. Mae ambell aelod o staff yn dal yma ers hynny!

Yn fwy diweddar cafodd y gwersyll £5.5 miliwn i godi bloc cysgu newydd sbon, Cilborth, sydd â lle i dros 200 mewn ystafelloedd *en-suite*.

**Gweithgareddau**
Mae Gwersyll yr Urdd Llangrannog yn cynnig amrywiaeth eang iawn o weithgareddau:
- Llethr sgïo
- Pwll nofio
- Llwybrau cerdded
- Beiciau cwad
- Wal ddringo
- Marchogaeth ceffylau
- Cwrs rhaffau
- Beicio

**Canolfan Hamdden Syr Ifan**
Mae'r ganolfan yn cynnwys:
- Neuadd chwaraeon
- Pedwar cwrt badminton
- Cae astro
- Ystafell ffitrwydd
- Cae chwarae naturiol

**Ymweliadau Dyddiol**
Mae Canolfan Treftadaeth Caer Chwedlau yn adrodd hanes yr Urdd a'r iaith Gymraeg. Cewch ganu carioci, gwisgo fel Twm Siôn Cati a gwrando ar un o straeon T. Llew Jones. Mae yma oriel yn cynnwys gwaith arlunwyr lleol.

**Cyfleusterau**
Mae gennym gyfleusterau 4 seren (Croeso Cymru) yn cynnwys:
- Cyfleusterau te a choffi ar gael trwy gydol y dydd
- Ystafelloedd ymlacio gyda theledu
- Defnydd o gyfrifiadur
- Cyfleusterau golchi a sychu dillad.

Mae amrywiaeth o ystafelloedd cysgu ar gyfer grwpiau o bedwar, chwech neu wyth. Mae'r mwyafrif o ystafelloedd yn cynnwys *en-suite*.

Rydym yn paratoi pedwar pryd o fwyd y dydd - brecwast, cinio, te a swper gan gynnig dewisiadau iach. Rydym wedi ennill gwobr Curiad Calon am ein gwaith i sicrhau bwydlenni iach. Mae'r bwyd yn cael ei brynu'n lleol lle mae hynny'n bosib. Dyma enghraifft o fwydlen:
- Cig oer ffres neu beli pysgod/ salad amrywiol/ ffa pob/ sglodion/ iogwrt braster isel Llaeth y Llan.





www.urdd.org/llangrannog

